

Patrwm y cyflwyniad: O fis Chwefror i fis Medi

Disgrifiad o'r modiwl

Mae TXY227 yn fodiwl gorfodol a gaiff ei astudio gan fyfyrwyr sy'n dilyn Prentisiaeth Gradd Atebion Digidol a Thechnoleg BSc (Anrhydedd), TG: Prentisiaeth Datblygu Meddalwedd i Raddedigion BSc (Anrhydedd) a Phrentisiaeth Diogelwch Seiber i Raddedigion. Mae'r gallu i fyw a gweithio gyda newid yn hanfodol yn y byd sydd ohoni heddiw. Mae hyn yn arbennig o wir yn y gweithle, lle y gall heriau i'r ffordd bresennol o wneud pethau ddeillio o newidiadau ym maes technoleg, y gymdeithas, yr amgylchedd economaidd a llawer o ffactorau ategol eraill. Mae'r modiwl hwn sy'n seiliedig ar waith yn datblygu dealltwriaeth myfyriwr o darddiadau, natur a chanlyniadau newid ac mae'n datblygu'r sgiliau sydd eu hangen i gynllunio ac, o bosibl, arwain prosiectau ymarferol yn y gweithle a fydd yn cyd-fynd ac yn cyfrannu at y rhaglenni newid ehangach y gall fod angen i'w sefydliadau eu rhoi ar waith.

Manyleb y person

Dylid darllen manyleb y person ar gyfer y modiwl hwn yn unol â [manyleb gyffredinol y person](#) ar gyfer darlithydd cyswllt yn Y Brifysgol Agored.

Yn ogystal â bodloni'r holl ofynion a gaiff eu nodi ym manyleb gyffredinol y person, dylech:

- Allu dangos diddordeb a dealltwriaeth o ddysgu yn y gweithle ac astudio drwy lwybr gradd sy'n ymwneud â chyfrifiadura
- Gallu cefnogi myfyrwyr i gysylltu deunyddiau modiwl (cynllunio ar gyfer newid a phrosiectau) â chyd-destunau gweithle sy'n ymwneud â chyfrifiadura
- Bod yn hyderus o ran cydnabod a delio â newid a bod yn gyfarwydd â dulliau modern ar gyfer gweithio ar brosiect
- Bod yn ymrwymedig i ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd sy'n briodol i'r modiwl hwn. Er enghraifft, mae sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig yn faes allweddol ar gyfer datblygu cyflogadwyedd myfyrwyr, felly dylai tiwtoriaid fod yn hyderus yn eu galluedd eu hunain yn y maes hwn
- Bod yn hyderus wrth ddefnyddio TGChau ar gyfer ymchwilio i achosion newid ac ar gyfer datblygu cynlluniau prosiect.

Byddai'n ddefnyddiol pe byddech yn meddu ar y canlynol:

- Profiad ymarferol o ddelio â newid yn y gweithle
- Profiad blaenorol o helpu myfyrwyr i ddatblygu cynlluniau prosiect a sgiliau sy'n gysylltiedig â gweithio ar brosiect
- Gwybodaeth am Brentisiaethau Gradd
-

Manylion sy'n ymwneud â'r modiwl - mae eglurhad llawn ar y wefan

Y credydau a gaiff eu dyfarnu i'r myfyriwr ar ôl cwblhau'r modiwl yn llwyddiannus:	30
Nifer yr aseiniadau a gyflwynwyd gan y myfyriwr:	3
Dull cyflwyno aseiniadau:	1a
Lefel y gofynion TGCh:	2
Nifer y myfyrwyr sy'n debygol o fod mewn grŵp safonol:	20
Band cyflog:	5
Oriau yr amcangyfrifir fesul wythnos addysgu:	5